Ymgynghoriad Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol

Ymgynghorwyr Cytundeb Cyflawni (cyrff ymgynghori 'penodol')

Rhaid ymgynghori â rhai sefydliadau a grwpiau penodol ar y Cytundeb Cyflawni drafft (sy'n cynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau) cyn cytuno arno gyda Llywodraeth y Cynulliad. Gelwir y rhain yn gyrff ymgynghori 'penodol'.

Y cyrff yma yw:

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cadw
- Y Cynulliad Cenedlaethol
- Awdurdodau Cynllunio yn y cyffiniau (yn achos Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynghorau Sir Conwy, Ceredigion, Ynys Môn a Phowys)
- Pob Cyngor Tref a Chymuned sy'n gorwedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal y cynllun datblygu
- Gweithredwyr cyfarpar cyfathrebu electronig
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymgymerwyr Trydan (Scottish Power, Powersystems a'r Grid Cenedlaethol)
- Ymgymerwyr Nwy (Transco)
- Ymgymerwyr Carthffosiaeth (Dŵr Cymru ac United Utilities)
- Ymgymerwyr Dŵr (Dŵr Cymru, Severn Trent Water, Babtie)
- Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ymgynghorwyr y Cynllun Cynnwys Cymunedau (cyrff ymgynghori 'cyffredinol')

Rhaid ymgynghori â grwpiau a sefydliadau eraill ar y rhan hwnnw o'r Cytundeb Cyflawni sy'n nodi cytundebau ymgynghori disgwyliedig, sef y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Gelwir y rhain yn gyrff ymgynghori 'cyffredinol'.

Nid yw cyrff ymgynghori cyffredinol yn cael eu rhestru yn y rheoliadau ac mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol ddiffinio'r cyrff cynrychioli priodol ar gyfer ei ardal, yn unol â'r penawdau canlynol:

- cyrff gwirfoddol sy'n cynnal gweithgareddau sydd o fudd i unrhyw ran o ardal y cynllun datblygu.
- cyrff sy'n cynrychioli budd gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol yn yr ardal.
- cyrff sy'n cynrychioli budd gwahanol grwpiau crefyddol yn yr ardal.
- cyrff sy'n cynrychioli budd pobl anabl yn yr ardal.
- cyrff sy'n cynrychioli budd pobl hŷn.
- cyrff sy'n cynrychioli budd pobl sy'n gweithredu busnes yn yr ardal.
- cyrff sy'n cynrychioli budd diwylliant Cymreig yn yr ardal.
- cyrff sy'n cynrychioli budd grwpiau gwirfoddol yn yr ardal.
- Aelodau lleol y Senedd ac Aelodau Etholaeth y Cynulliad.